

CYNHAEAF Y CNAU CYFLWYNIAD GWASANAETH



Thema: bwyd, cnau Brasil, hawliau tir, cymuned, amgylchedd.

Gwlad: Brasil.

Nod: dathlu'r Cynhaeaf.

Deunydd:

- dewisol - wyau, llaeth, blawd, cnau Brasil - gwnewch yn siŵr nad oes gan neb alergedd i gnau.
- mae deunydd dysgu i gefnogi'r gwasanaeth hwn ar gael i'w lawr lwytho o christianaid.org.uk/learn

Adnoddau ychwanegol ar gael:

- sioe sleidiau'r gwasanaeth
- gweithgareddau dosbarth *Cynhaeaf y Cnau*.

CYFLWYNIAD GWASANAETH

Dangos sleid 1.

Adeg Cynhaeaf, rydym yn hoffi rhoi amser i feddwl am ein bwyd ac o ble mae'n dod.

Cydiwch yn yr wyau, y llaeth a'r blawd neu dangoswch luniau ohonyn nhw (sleidiau 2-4). Gofynnwch i'r disgyblion o ble mae'r bwydydd hyn yn dod?

Dangoswch gneuen Brasil neu lun ohoni (sleid 5). Oes rhywun yn gwybod beth yw hon ac o ble mae'n dod?

Does dim byd arbennig amdani, nag oes? Ond mae stori ryfeddol gan y gneuen hon. Cneuen Brasil yw hi – ac ie, mae hi wedi dod o wlad Brasil yn Ne America.

Dangos sleid 6.

Mae rhan helaeth o Frasil wedi'i orchuddio gan goedwig law hardd yr Amazon a dim ond yn y goedwig honno mae cnau Brasil yn tyfu'n wyllt. Nid yw'n bosibl eu ffermio. Y rheswm am hynny yw bod y coed yn dibynnu ar rai o gyfeillion arbennig y goedwig law.

Dangos sleid 7.

Er mwyn cynhyrchu hadau, rhaid i'r coed ddenu math arbennig o wenynen a elwir tegeirian gwenynog (orchid bee). Mae'n symud o goeden i goeden ac yn peillio (yn ffrwythloni) y goeden fel ei bod yn cynhyrchu hadau (dyma'r cnau Brasil).

Dangos sleid 8.

Ond er mwyn i'r cnau hyn dyfu'n goed newydd, rhaid eu plannu, ac ar gyfer hyn, mae'r goeden yn dibynnu ar greadur bach digywilydd o'r enw agouti. Mae gan yr agouti ddannedd miniog iawn a dyma'r unig anifail – ar wahân i bobl – sy'n gallu hollti'r cragen galed i gyrraedd y gneuen Frasil flasus oddi mewn.

Dangos sleid 9.

Mae'r agouti yn hoff iawn o gnau Brasil! Maen nhw'n eu hoffi cymaint nes eu bod yn cuddio rhai yn

y pridd er mwyn eu bwyta nes ymlaen. Ond, gan eu bod braidd yn anghofus, weithiau nid ydyn nhw'n gallu cofio ymhle y claddon nhw'r cnau. Dyma'r cnau sy'n tyfu'n goed cnau Brasil. Ac mae nhw'n gallu tyfu! Gall coeden gnau Brasil dyfu hyd at 50 metr o daldra a byw am hyd at 1,000 o flynyddoedd.

Dangos sleid 10.

Mae stori'r goeden gnau Brasil yn enghraifft dda o gylchred bywyd. Heb y tegeirian gwenynog a'r agouti, gall y coed cnau Brasil ddim tyfu. A heb fywyd y gwahanol blanhigion yn y goedwig law, gall y gwenyn a'r agouti ddim byw. Felly mae bywyd yng nghoedwig law yr Amazon mewn cydbwysedd bregus, a phob un o'r miloedd lawer o'i thrigolion wedi addasu eu hunain i fyw ochr yn ochr â'i gilydd.

Dangos sleid 11.

Ymysg holl drigolion y goedwig law – sy'n cynnwys y twcan, y mwnci a'r jagwar a miliynau o bryfed - mae rhai pobl arbennig iawn: y quilombola. Fel eu cymdogion yn y goedwig, mae'r quilombola yn bobl sydd wedi dysgu byw mewn cytgor â'r goedwig, gan ei defnyddio yn gartref ac yn ffynhonnell eu bwyd, yn ogystal â'i gwarchod.

Dangos sleid 12.

Mae Dielem Viana Printes yn wyth oed ac mae hi wedi byw yn y goedwig ar hyd ei bywyd. Am eu bod yn byw ymhell o unrhyw siopau, mae Dielem a gweddill cymuned y quilombola yn cynaeafu bron y cyfan o'u bwyd o'r goedwig.

Nid yr agouti yw'r unig rai sy'n hoff o gnau Brasil: mae Dielem yn dwlu arnyn nhw hefyd! Maen nhw'n rhan bwysig iawn o'i diet hi gan eu bod nhw'n llawn maeth hanfodol a phrotein. Mae Dielem yn ymfalchïo yn y ffaith y gall hi, yn ogystal â'r agouti, hollti cragen galed cneuen Frasil â'i dannedd!

Dangos sleid 13.

Mewn sawl ffordd, mae Dielem yn debyg iawn i unrhyw un ohonoch chi. Mae'n treulio bron bob dydd yn yr ysgol ac ar ôl cyrraedd gartre, mae'n edrych ymlaen at newid o'i gwisg ysgol er mwyn

mynd allan i chwarae gyda'i brodyr. Mae'n hoffi nofio a thynnu llun, a'i hoff liwiau yw coch a phinc.

Dangos sleid 14.

Onid mae ambell beth yn wahanol rhwng ei bywyd hi a'ch bywyd chi. Cwch yw'r bws sy'n cario Dielem ar hyd yr afon a thrwy'r goedwig law i'r ysgol leol.

Dangos sleid 15.

Pan fydd Dielem yn mynd i nofio gyda'i brodyr ar ôl yr ysgol, rhaid cadw golwg rhag ofn bod crocodeil yn yr afon. Ac unwaith y flwyddyn, fe fydd hi a gweddill y pentrefwyr yn mynd yn ddwfn i'r goedwig i gynaeafu'r cnau Brasil gwerthfawr.

Dangos sleid 16.

Dyma sut mae Bebé Albenize, oedolyn sy'n byw'n agos at Dielem, yn disgrifio'r amser pwysig hwn:

'Er mwyn cyrraedd yr ardal orau [ar gyfer y cynaeafu] byddwn yn rhwyfo am dair awr a hanner mewn cychod bach, wedyn yn cerdded am ddiwrnod arall i mewn i'r goedwig ac yno yn gwneud tai o goed a dail palmwydd... Mae'r plant yn dwlu gymaint ar fyw allan yn y goedwig: mae hyd yn oed y rhai lleiaf yn helpu i gasglu'r cnau.'

Dangos sleid 17.

Mae Dielem a'i chymuned yn deall ac yn parchu'r goedwig. Mae'r coed cnau Brasil mor bwysig yn niwylliant y quilombola fel bod gan sawl un o'r coed enwau, fel pobl. Dywed Domingos, tad Dielem, 'Mae gan y tir arwyddocâd arbennig i ni... rydym yn galw'r tir "mam". Mae gennym hen gân ac mae'r gerddoriaeth yn dweud: "y tir yw ein mam a rhaid i ni ofalu amdani".'

Dangos sleid 18.

Mae Dielem a'i chymuned yn gwneud gwaith pwysig iawn. Trwy fyw yn y goedwig a gofalu amdani, maen nhw'n helpu i warchod yr amgylchedd rhyfeddol hwn rhag cwmnïau mawr fyddai'n hoffi torri'r coed a defnyddio'r pren a chloddio'r ddaear i gasglu mwynau gwerthfawr. Mae cymunedau'r goedwig law yn cael cefnogaeth

gan un o bartneriaid Cymorth Cristnogol, CPI, sy'n helpu'r bobl i ddeall eu hawliau, i wrthsefyll y cwmnïau mawrion a chydweithio i rwystru'r goedwig werthfawr rhag cael ei thorri i lawr.

Dangos sleid 19.

Mae gwarchod y goedwig yn bwysig i ni i gyd, gan fod coedwig law yr Amazon yn amgylchedd arbennig i'r holl blaned. Nid yn unig mae yno nifer fawr o wahanol fathau prin o anifeiliaid a choed, ond mae'r coed hyn yn helpu i gynhyrchu ocsigen sydd ei angen ar bob un ohonom i anadlu. Mae'r coed hefyd yn amsugno nwyon sy'n difwyno. Felly, fel yr agouti, y tegeirian wenynog a'r goeden gnau Brasil, rydym ni hefyd yn dibynnu ar y goedwig law hon. Mae'r quilombola yn deall yn iawn fod y goedwig law yn haeddu parch a gwarchodaeth. Mae un o arweinwyr pentre Dielem yn egluro'r peth: 'Dydym ni ddim yn farus, rydym ond yn trin darn bach o dir i gwrdd â'n hangen ni. Rydym yn deall y goedwig.' Yn yr ardaloedd lle mae'r quilombola yn byw mae llawer llai o'r coed yn cael eu torri gan y cwmnïau mawr, oherwydd eu bod nhw yno i'w gwarchod.

Ynghyd â helpu'r gymuned i wrthsefyll y cwmnïau mawrion, mae partner Cymorth Cristnogol, CPI, hefyd yn eu helpu nhw i ddod o hyd i arian er mwyn sefydlu ffatri fechan ble byddan nhw'n gallu defnyddio peiriannau i hollti cregyn caled y cnau Brasil. Bydd hyn yn golygu y byddan nhw'n gallu gwerthu mwy o gnau a gwneud mwy o arian o'u cynhaeaf.

[Dangoswch gneuen Brasil i'r disgyblion.] Mae'n anhygoel meddwl fod y gneuen hon wedi tyfu yn y goedwig law; gallai'r goeden lle tyfodd hon fod wedi'i phlannu mwy na thebyg gan agouti a'i pheillio gan degeirian wenynog; bod pobl fel Dielem a'i theulu efallai wedi cerdded yn ddwfn i'r goedwig i gasglu'r gneuen hon.

Mae dal y gneuen hon yn f'atgoffa o gydbwysedd bregus byd natur sydd yn ein dwylo ni i gyd. Mae pobl y quilombola yn ysbrydoliaeth: gadewch i ni sicrhau ein bod yn ceisio parchu ein hamgylchedd ninnau gymaint ag y maen nhw.

GWEDDI

Annwyl Dduw,

Rydym ni'n gwrandao mewn rhyfeddod ar stori coedwig law yr Amazon. Rhown ddiolch am amrywiaeth rhyfeddol bywyd ar y Ddaear. Gweddïwn y bydd y quilombola yn cael aros ar eu tir a pharhau i amddiffyn a gofalu am y goedwig. Ac yn ystod y cynhaeaf hwn, rydym ni'n addo gwneud yr hyn allwn ni i ofalu am ein planed.

Amen.

GWEITHREDU YMHELLACH

- Gallwch lawr lwytho gweithgaredd dosbarth cynradd *Cynhaeaf y Cnau* o christianaid.org.uk/learn
- Gall eich ysgol helpu i godi arian i gefnogi gwaith partneriaid Cymorth Cristnogol. Am fwy o fanylion, ewch i christianaid.org.uk/harvest